

Y gwirionedd sy'n wirionedd

“Cysegra hwy yn y gwirionedd. Dy air di yw'r gwirionedd.” (adn. 17)

Beth am ddarllen Ioan 17:1–26 ac yna myfyrio

Dyma'r weddi hiraf a gofnodir o eiddo'r Arglwydd. Yn y weddi, fel y dywed ein testun heddiw, mae Iesu am ddweud mai Gair Duw yw'r gwirionedd. Mae'r pum gair yma yn rhoi sail i ni gyda golwg ar ein cred yn natur ddibynadwy y Beibl. Mae Gair Duw yn wir. Fe ddywed y Gwardwr hynny ei hunan. Nid cyngor gan ddyinion sydd yn y Beibl ond cyngor dwyfol. Mae'n onest, yn ddibynnol, ac fe berthyn iddo gywirdeb arbennig.

Yn anffodus heddiw, nid yw'r byd yn credu mewn gwirionedd. Pan mae pobl yn siarad am wirionedd, nid ydynt yn siarad yn nhermau'r Beibl nac ychwaith mewn termau traddodiadol. Yr hyn a olygant yw'r hyn sy'n wir yn awr. Efallai nad oedd yn wir ddoe ac efallai na fydd yn wir yfory. Tebyg fod rhywbeth sy'n wir i un person heb fod yn wir i un arall. Mewn geiriau eraill, mae gwirionedd i ddynion a merched ein cenhedlaeth ni yn rhywbeth cymharol. Dyna pam y bu i Francis Shaeffer fathu'r term 'y gwirionedd sy'n wirionedd' oherwydd mai'r gwirionedd sydd yng Ngair Duw – y gwirionedd sy'n ddibynadwy, yn wrthrychol ac yn awdurdodedig.

Cefais fy ngeni yn 1928 a bellach yr wyf wedi byw bron i bedwar ugain o flynyddoedd – yn ddigon hir i sylweddoli fod angen gwirionedd yn fy mywyd. Yr wyf wedi bod yn agored i glyfrwch dynion ar bob math o bynciau, gan gynnwys peirianwaith, diwinyddiaeth a seicoleg. Rwyf wedi yfed o lif ffrwd doethineb dynol gymaint ag unrhyw un arall, a does dim angen mwy o hyn yn fy mywyd. Yr hyn sydd ei angen yw gwirionedd Duw – ei 'ie' efa'i 'nage' ef, ei arweiniad a'i ddoethineb. Dyna pam yr wyf yn gwerthfawrogi'r Beibl. Mae'n wirionedd gwirioneddol. Gallwch ddibynnu ar hwn i beidio newid. Mae'r hyn a ddywed yn wir heddiw, ac fe fydd yn wir yfory, fel ag yr oedd ddoe. Mae popeth sydd o unrhyw werth tragwyddol yn y bywyd hwn wedi ei amgyffred oherwydd y llyfr arbennig yma. Dyma fy nhystiolaeth. Gobeithio mai dyma eich tystiolaeth chwithau.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Sam.7:28; Salm 119:137–144; 119:151–152

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod Gair Duw bob amser yn berthnasol?
2. Pam fod y salmydd yn gorfoleddu hyd yn oed mewn trafferthion enbyd?

Gweddi

O Dad, rwy'n diolch i ti, mewn oes pan mae pobl yn gweld gwirionedd fel rhywbeth cymharol gyfnewidiol, fod gen i gorff o wirionedd sy'n ddibynadwy ac yn anghyfnewidiol. Rwy'n gollwng fy angor i mewn i'w ddyfnderoedd sicr. Amen.